# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

EBRILL 1976

RHIF 29


# Y Brifwyl yn dod i Gaerdydd

**Mewn cyfarfod yn Neuadd y Ddinas nos Wener, Mawrth 19eg, estynnwyd gwahoddiad swyddogol i'r Eisteddfod Genedlaethol i ddod i Gaerdydd ym 1978. Dilynodd y cyfarfod cyhoeddus sesiwn gyfrin ymlaen llaw pan fu swyddogion yr Eisteddfod yn ymgynghori gyda rhai o ddinasyddion blaenllaw Caerdydd ynglŷn âg ethol Pwyllgor Gwaith, gan drafod rhestr faith o enwau a oedd wedi ei pharatoi ymlaen llaw.**

Anhrefnus, a dweud y lleiaf, oedd y cyfarfod cyhoeddus ei hun oherwydd diffyg llywio o'r gadair. (Mae'n debyg nad oedd neb wedi hysbysu Llywydd Llys yr Eisteddfod, yr Athro Idris Foster, ymlaen llaw y byddai gofyn iddo lywyddu dros drafodaeth o'r fath.) Sut bynnag, mynegodd un neu ddau o bobl eu pryderon ynglŷn â doethineb gwahodd y Brifwyl i Gaerdydd ym 1978 yn wyneb y ffaith fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Y Barri ym 1977. Yn eu plith roedd Dr Meredydd Evans a Mr Glan Roberts, a ddywedodd y byddai Caerdydd yn hapus iawn i groesawu'r Eisteddfod unryw adeg arall ond 1978. Serch hynny, ar ddiwedd y cyfarfod, cytunwyd yn unfrydol bron i wahodd y Steddfod yma ym 1978.

Gyda Phwyllgor Llywio o ryw dri dwsin o bobl wedi'i ffurfio (i wneud dim byd mwy hyd y gellir gweld nag enwebu Pwyllgor Gwaith!), wele olwynion democratiaeth yn rhygnu eu ffordd ymlaen, ac Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1978 bellach yn realiaeth.

GOHEBYDD ARBENNIG




## EISTEDDFOD YR URDD Y BARRI A'R FRO 1977

Oes rhywun heb glywed bod Eisteddfod yr Urdd yn dod i'r Barri yn 1977? Fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith gallaf eich sicrhau bod yna fôr o weithgaredd yn y dre a'r Fro i sicrhau y bydd yna safle godidog, gystadleuaethau teilwng, letygarwch twymgalon ac yn bennaf oll groeso tywysogaidd i Brifwyl yr Urdd a'i chyfeillion ar ei hymweliad cyntaf â'r llecyn hyfryd hwn.

Mae'r Meiri a'r Cynghorwyr wedi bod yn gefn i'r amryfal Bwyllgorau a'r Is-Bwyllgorau sydd wedi bod ac yn parhau i fod yn weithgar dros ben. Mae'r Rhaglen yn barod a'r arian yn dechrau llifo i mewn. Gaf fi felly, apelio atoch yn daer i'n cefnogi mewn gair ac mewn gweithred, gan gofio y nod sy'n rhaid i ni gyrchu ato, sef £60,000. Beth am gyfraniad felly — arian neu stampiau gwyrdd? Dowch gyfeillion, bwriwn ati o ddifri.

ELWYN RICHARDS,
Cadeirydd.

## Y GYSTADLEUAETH

Cyhoeddir enwau'r ymgeiswyr buddugol a'r stori fer a enillodd y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Stori Fer y Dysgwyr ar dudalen 4.



*Llosgi trwydded teledu ar risiau'r Swyddfa Gymreig yn Rali Cymdeithas yr Iaith (Mawrth 6ed).*

## Pregeth Saesneg

**Nos Wener, Mawrth 12, sefydlwyd Y Parchedig Leslie Evans, Burry Port yn ficer eglwys Gymraeg Dewi Sant. Roedd yr adeilad dan ei sang, a nifer mawr o hen aelodau'r ficer wedi dod i weld y sefydlu. Cawsant groeso cynnes a lluniaeth wedi'i ddarparu gan wragedd yr eglwys.**

Yr esgob newydd oedd yn llywyddu'r seremoni, ac er iddo ymdrechu ymdrech deg, gwelwyd pa mor anodd yw hi i ymgodymu ag iaith ddieithr ar fyr rybudd. Teimlad llawer a oedd yno oedd na ellid deall ei ynganu, ac o'r herwydd collodd y gwasanaeth lawer o'i rym a'i ystyr. Uchafbwynt y noson oedd y bregeth, a dewisodd draddodi honno yn Saesneg. Fe fyddai'n ddiddorol gwybod pa bryd y traddodwyd pregeth i gynulleidfa Gymraeg Dewi Sant o'r blaen mewn iaith estron.

Os oedd angen profi rhywbeth, mae'r gwasanaeth wedi dangos y dylid rhoi ystyriaeth i iaith mewn penodiadau o'r fath. Mae'n siŵr fod yr esgob a wnaeth ei orau wedi gweld hynny ac y bydd yn gofalu fod ei ddirprwy'n gyfarwydd â'r Gymraeg.

Mae'r ficer a'i deulu wedi setlo i lawr yn hapus erbyn hyn, a dymunwn iddynt bob llwyddiant yn eu plwyf newydd.

# GOLYGYDDOL

Felly mae'r 'Steddfod yn dod. Wedi pob dadl i'r gwrthwyneb, dyma hi'n ymlwybro'i ffordd fel rhyw anghenfil dall i Gaerdydd ym 1978. O leiaf fe rydd yr achlysur gyfle i ni i gyd lawenhau o weld gwireddu un o ddyheadau pennaf ein anrhydeddus Arglwydd Faer, sef cael ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd! Ond mae'n siwr nad dyna unig fwriad Cyngor Dinas Caerdydd wrth wahodd yr Wyl yma ar ein rhan. (Ac na foed amheuaeth ym meddwl neb ynglŷn â hynny: ffurfioldeb — anhrefnus ar y naw, ond tae waeth am hynny — oedd y cyfarfod cyhoeddus, cyfle i wneud dim byd mwy na rhoi sêl ein bendith ar benderfyniad a oedd eisoes wedi'i wneud.)

Sut bynnag, gan fod y penderfyniad hwnnw wedi ei wneud, yr unig beth synhwyrol i'w wneud bellach yw derbyn hynny'n raslon a mynd ati'n llawen i brofi y gall y cylch hwn gynnal ein dwy Ŵyl Genedlaethol flaenllaw o fewn blwyddyn i'w gilydd, a gwneud hynny'n llwyddiannus. Ond fe erys un cwestiwn y mae'n rhaid ei ateb cyn i ni i gyd dorchi llewys. Mae sawl si yn cylchredeg erbyn hyn mai'r gobaith y gellir cael y Frenhines i anrhydeddu'r Ŵyl â'i phresenoldeb sydd wrth gefn brwdfrydedd annisgwyl ac anesboniadwy cynghorwyr Caerdydd dros wahodd y 'Steddfod i'r brifddinas ym 1978. Cyfraniad Cymru i sbleddach dathliadau jiwbili arian teyrnasiad Elisabeth? Ie, a chyfle am anrhydedd bach neu ddau i weision teyrngar y Goron a fydd yn croesawu'r Frenhines i Gaerdydd... ac un neu ddau o resymau eraill, mwy dyrys o bosib.

Hap-ddamcaniaethu yw hyn, wrth gwrs, ac y mae'n sicr y cawn ein beirniadu am godi'r pwnc o gwbl ar sail si amhosib ei chadarnhau; os nad oes gwirionedd yn y peth, ymddiheurwn ymlaen llaw am ein hamheuon. Y cwbl a ofynnwn yw i Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol ladd y si hon yn awr, am unwaith ac am byth, drwy roi sicrwydd nad yw'n fwriad ganddynt i wahodd y Frenhines na'r un aelod arall o deulu brenhinol Lloegr i Eisteddfod 1978, ac os daw cais i'r perwyl hwn oddi wrth Gyngor Caerdydd, y bydd Cyngor yr Eisteddfod yn ei wrthod.

I gario'r ddadl i'w phen draw rhesymegol, onid yw hi'n hen bryd sut bynnag i'n prif sefydliad cenedlaethol gael gwared o'r ansoddair dianghenraid ac israddol "Brenhinol" o'i theitl? Pwy ond ni'r Cymry a fyddai'n gweld angen ychwanegu at "urddas" (os mai dyna'r gair) ein Prifwyl drwy geisio ei chysylltu â theulu brenhinol estron, sumbol ein goresgyniad diwylliannol, ein difodiant gwleidyddol a thranc yr iaith Gymraeg yn ei gwlad ei hun? Llawer rheitach fyddai i ni ddechrau ymgyrchu nawr am ddileu'r "Brenhinol" unwaith ac am byth gan obeithio fod meddylfryd taeogaidd canhedlaeth a dderbyniodd yr ychwanegiad at deitl yr Eisteddfod yn y lle cyntaf bellach wedi marw o'r tir. Boed Eisteddfod 1978 yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd: dim byd mwy, dim byd llai. Canys dyna beth ydyw'r Eisteddfod — ein Prifwyl genedlaethol y gallwn ymfalchio ynddi a'i choleddu heb fod arni angen unrhyw addurniadau anghymharus eraill.

* * *

Rhwng apêl Cronfa'r Mil o Filoedd, a'r dadlau dros Steddfod 1978, mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi hawlio lle blaenllaw yng ngholofnau'r *Dinesydd* ers tro, ar draul Eisteddfod yr Urdd ym marn rhai. Bellach, mae Steddfod y Barri'n dechrau codi stêm, a chawn ddisgrifiad llawn o'r gweithgareddau a drefnir gan Bwyllgor y Barri mewn man arall yn y rhifyn hwn. Pob llwyddiant i'r Pwyllgor yn ei waith, a gobeithio y caiff yr holl weithgareddau gefnogaeth frwd.

* * *

Gyda'r rhifyn hwn, mae'r *Dinesydd* yn deirblwydd oed. Pan ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym mis Ebrill 1973, arloeswr unig oedd *Y Dinesydd* a neb yn sicr iawn beth oedd yr argoelion am ei ddyfodol. Bellach, teimlwn y gellir dweud iddi ennill ei blwyf yn yr ardal hon; chododd to newydd o bapurau bro Cymraeg i gadw cwmni iddo ac nid ymddengys fod pall ar y ffrydlif honno ar hyn o bryd. Gobeithio fod *Y Dinesydd* yn cyflawni i ryw raddau ei fwriad gwreiddiol o wasanaethu Cymry Cymraeg y cylchoedd hyn a bod yn ddolen gyswllt rhyngddynt. Ar yr un pryd, dyw hi ddim yn bosib plesio pawb. Os nad yw'r papur wrth eich bodd, beth am ddanfon gair i awgrymu sut y gellir ei wella (neu, gwell fyth, os *yw* wrth eich bodd, hoffem glywed gennych!) Gwych o beth fyddai gallu llenwi'r rhifyn nesaf â'ch barn chi'r darllenwyr o'r papur, wrth edrych yn ôl dros y tair blynedd cyntaf.


Coleg y Brifysgol Caerdydd

THEATR SHERMAN

Perfformiadau yn Gymraeg

EBRILL/MAI

| | |
|---|---|
| Ebrill 23<br>2.00 | Cwmni Urdd Gobaith Cymru<br>HAMLET Shakespeare<br>Sherman 40c |
| Mai 9<br>8.00 | WEDI'R OEDFA<br>Noson amrywiol ar gyfer<br>Mudiad Ysgolion Meithrin<br>Sherman 75c |
| Mai 13-15<br>8.00 | Theâtr yr Ymylon<br>POBL YR YMYLON<br>Comedi enwog Idwal Jones<br>gyda MEREDITH EDWARDS<br>Arena 60c |
| Mai 21 &<br>22<br>8.00 | Cwmni Theatr Cymru<br>BYW YN Y WLAD<br>Rifiw Newydd Arena 60c |

Swyddfa Docynnau
CAERDYDD 25855


Diolch yn fawr i'r nifer dda o bobl sydd wedi cyfrannu i'r *Dinesydd* mewn ymateb i sawl apel yn ystod y misoedd diwethaf. I'r rheini ohonoch sy'n dal heb gyfrannu ac a fyddai'n hoffi gwneud, y cyfeiriad yw: Geraint Walters, Trysorydd *Y Dinesydd*, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd.

# Ysgolion Meithrin

Fis yn ôl treuliais dridiau difyr a hapus iawn yn fy hen dre — prifddinas Llŷn — ie, Pwllheli! Wrth gwrs, bûm yn rhodio'r hen lwybrau ac yn adnewyddu hen gyfeillgarwch. Ces flas ar gerdded o gwmpas y dre gan ofyn i mi fy hun droeon, "Be' oedd fan 'ma ers talwm?"

Ond bûm hefyd mewn man na fûm ynddo erioed o'r blaen. Do, treuliais awr hapus iawn yn un o Gylchoedd Meithrin y dre. Profiad hynod oedd hwn wedi imi dreulio tri mis yn ymweld â Chylchoedd De Morgannwg. Cynhelir yr ysgol mewn hen ysgol sy'n awr yn Ganolfan Gymdeithasol. Mae gan y Cylch ystafell wedi'i neilltuo ar ei gyfer. Roedd y waliau'n lliwgar, ysbyty mewn un gornel a siop yn y gornel arall, cornel lyfrau a chornel degannau, a rhyw bymtheg o Gymry Gymraeg yn eu mwynhau eu hunain. Ie, y plant i gyd yn Gymry Cymraeg! Mor wahanol yw'r amgylchiadau yno. Fe wn bod yna broblem iaith mewn amal i fan yn y Gymru Gymraeg ond bûm yn ffodus i ymweld â Chylch yn un o gadarnleoedd y Gymraeg.

Syndod i'r athrawon yno oedd deall mai eithriad mewn nifer o Gylchoedd De Morgannwg yw cael plentyn o Gymro Cymraeg. Sylweddolais fod ein hathrawon ni yn cyflawni gwrhydri — hyd yn oed pe na baent ond yn llwyddo i gael y plant â chrap ar y Gymraeg ar ddiwedd eu tymor yn y Cylch. Carwn dalu teyrnged i ddycnwch a dyfalbarhad athrawon Cylchoedd De Morgannwg ac am eu sêl dros yr iaith.

Nid problem iaith yn unig sy'n ein poeni ond problemau ariannol hefyd — pob cylch yn crafu i gael deupen llinyn ynghyd. Llongyfarchion i Gylch Ystum Taf ar y ffair lwyddiannus a gynhaliwyd fis diwethaf. Gwnaeth Cylch y Sblot elw o £40 mewn Ffair Sborion — a dyna enwi dim ond dau o nifer o weithgareddau a fu yn ystod mis Mawrth.

Bydd Ebrill eto'n brysur. Nos Iau, 8fed o Ebrill bydd Cylch Llanfihangel ar Elai yn cynnal Dawns a Disco yng nghwmni'r Triban am 8.30p.m. yng Nghlwb y Wanderers, Grand Avenue. Cofiwch hefyd am "Ffwlbri Ebrill" er budd cylch Y Waun — noson yng nghwmni Eirwyn Pontshan a'r Diliau am 8 o'r gloch nos Wener, Ebrill 9fed yn Nhŷ Maeth. Apeliaf ar i bob cylch adael imi wybod ymlaen llaw am eu gwahanol weithgareddau.

Tra bod pob Cylch yn codi arian at eu cynnal eu hunain, y mae'r Mudiad yn genedlaethol yn gorfod codi swm sylweddol o arian gan mai prin yw'r cyfraniadau unigol i goffrau'r Mudiad. I'r diben yma y mae Dr Meredydd Evans a minnau'n trefnu noson i godi arian i'r Gronfa Genedlaethol yn Theatr Sherman am 8 o'r gloch nos Sul 9fed o Fai. "Wedi'r Oedfa" fydd teitl y noson a bydd yno ganu gwerin, unawdydd, canu penillion a detholiad o farddoniaeth. Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth.

Fis yn ol apeliais am i unryw un â diddordeb mewn dysgu mewn Cylch Meithrin yng Nghaerdydd gysylltu â mi. Distawrwydd llethol! Felly, dyma ail ofyn — fe all y byddwn dair athrawes yn brin ar ôl y tymor nesaf. Buaswn yn hynod ddiolchgar pe bae rhywun yn ateb fy nghri!

SHÂN EMLYN




# Maglu'r Meddyg

**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fai 7fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn EBRILL 26 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**



*Aelodau Adran newydd sbon yr Urdd yn Y Rhath — cyfarfod am 6.30p.m. bob nos Fawrth yn Ysgol Bryntaf.*

**Daeth cyfnod i ben. Llithrodd blynyddoedd ieuenctid nwyfus ymaith, a phallu mae hwyl yr helfa. Trist yw trigolion Caerdydd am na chant mwyach y pleser o ddilyn campau carwriaethol y doctor deche, y seiciatrydd ysgytwol, Pleidiwr Plasnewydd, y Dr Dafydd Hughes. Maglwyd y meddyg.**

**Ar hyd y blynyddoedd, bu Dafydd yn clochdar uwchben cyfeillion anffodus eraill a syrthiodd yn y gad o'i flaen, mewn amal i briodas ar hyd a lled y wlad. Bu'n was priodas wyth o weithiau hyd yn hyn — a yw hyn yn record?**

**Ond, fe ddaeth ei awr yntau. Ar y Llungwyn, yn y Rhewl (na, nid ar yr hewl ond yn Rhewl, gerllaw Rhuthun), dofir Dafydd o'r diwedd a'i uno â'i gariad, Rhian Jones, mewn glân briodas. Dafydd Williams (alias Dai Banjo, alias Ysgrifennydd Cyffredinol Plaid Cymru) fydd y gwas priodas ar yr achlysur hanesyddol hwn.**

**Llongyfarchiadau gwresog i Dafydd a Rhian a phob hwyl iddynt yn eu bywyd newydd. Byddant yn ymgartrefu yng nghartref Dafydd, Fferm Ffwrnes Blwm ar ben Mynydd Caerffili, ac yn magu defaid.**

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# TUDALEN Y DYSGWYR

## HWYL Y DYSGU

*Mae cyrsiau penwythnos yn boblogaidd iawn gyda dysgwyr ar hyn o bryd* (at the present time). *Ar y 12fed Mawrth roedd cwrs yn Llangrannog gyda tua hanner cant o bobl yno yn mwynhau eu hunain drwy'r Gymraeg. Bu pobl yn dawnsio, nofio, reidio ceffylau, mynd am dro, canu, yfed — y cwbl yn Gymraeg. Cawsom lawer o hwyl ac roeddwn i wrth fy modd* (delighted) *yn gwrando ar ddyn o'r Barri yn siarad Cymraeg gyda Cardi ar lan y mor. Dim ond am flwyddyn roedd y gwr o'r Barri wedi bod yn dysgu ac roedd eisoes yn gallu siarad Cymraeg gyda dyn o Sir Aberteifi. Oeddech chi'r dysgwyr yn gwybod mai yn Sir Aberteifi mae Cymraeg gorau Cymru i'w glywed? Trist oedd gorfod dweud da boch chi* (goodbye) *wrth Ynys Lochtyn a Bae Ceredigion a John Japheth a Winnie a throi yn ol i'r brifddinas yn gynnar brynhawn Sul.*

## OPERA YN Y DYFFRYN

*Cwrs dipyn yn wahanol a gaed yn y Dyffryn y penwythnos ar ôl hynny ond eto i gyd llawn gymaint o hwyl. Roedd rhyw gant o bobl yno yn awyddus* (eager) *i wella'u Cymraeg drwy lawer o weithgareddau amrywiol* (varied activities). *Perfformiwyd opera odidog o waith M. Maxwell Evans ar y nos Sadwrn gan griw o'r athrawon a chafwyd stori a chân tan ddau o'r gloch y bore. Uchafbwynt y cwrs yn ddiamau oedd y cyngerdd a roddwyd gan y dysgwyr cyn cinio dydd Sul. Cafwyd llawer o ganeuon newydd sbon ac roedd y safon yn uchel. O oes, mae digon o hwyl ar gwrs penwythnos ac fe fydd eich Cymraeg yn sicr o fod yn well am eich bod wedi cael digon o gyfle i ddefnyddio'r iaith. Mae'r cwrs penwythnos nesaf yn Y Dyffryn ar yr ail o Orffennaf. Os ydych am le ar y cwrs yma, brysiwch — mae tua 40 o bobl ar y cwrs yn barod. Ysgrifennwch at Y Warden, Tŷ Dyffryn, Sain Nicholas.*

## CYRSIAU ERAILL

* *Cwrs penwythnos yn Llangrannog, Tachwedd 5ed.*
* *Cofiwch am yr Ysgol Haf Y Barri — Awst 9-20. Manylion oddi wrth Mr John Lloyd, Swyddfa Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr.*
* *Cwrs Carlam Aberystwyth, Gorffennaf 12-24, manylion oddi wrth Y Gyfadran Addysg, Aberystwyth.*
* *Cwrs Coleg Iwerydd, Sain Dunawd (St Donat's), Gorffennaf 16-23. Manylion oddi wrth Yr Uned Iaith, Trefforest.*
* *Plas Gregynog, Powys, Gorffennaf 18-22. Manylion oddi wrth Y Warden, Coleg Harlech.*
* *Cwrs Coleg Harlech — diwedd mis Gorffennaf. Manylion oddi wrth Mr Silyn Hughes, Coleg Harlech, Harlech.*
* *Cwrs Coleg y Brifysgol, Bangor — Gorffennaf. Manylion oddi wrth Mr John Ll. Williams, Adran Allanol, Coleg y Brifysgol, Bangor.*

## GAIR OLAF

*Wel, dyna ddigon o gyrsiau i chi. Ga'i ofyn i chi'r dysgwyr i gofio un peth? Os oes Cymro Cymraeg yn gofyn i chi, "Ydych chi'n siarad Cymraeg?" cofiwch ateb "Ydw," bob amser. Os byddwch yn dweud, "Wel, rydw i'n dysgu tipyn bach," fe fydd y Cymro Cymraeg yn troi i'r Saesneg. Daliwch ati!*

JOHN ALBERT

**Pleser yw cyhoeddi canlyniadau ail gystadleuaeth stori fer y dysgwyr. Cafwyd cystadleuaeth dda eto, a chafodd y beirniad, Mt Illtyd Lewis, fod pedair stori ynd deilwng i'w gwobrwyo.**

**Dyma'r straeon buddugol:**

1. **STORI DDI-DEITL gan GUILDENSTERN (Cris Jones, 10 Bishop's Close, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd)**
2. **NOSON FYTHGOFIADWY gan COBLER Y COED (Mrs D. Wood, 206 Newport Road, Caerdydd)**
3. **BRENIN gan LLANILLTUD FAWR (Roger Jones, 34 Pedair Erw, Llanilltud Fawr, Morgannwg)**
4. **DWY WELEDIGAETH IEUAN gan BRATH YR EITHIN (Huw Pryce, 37 Heol y Bryn, Rhiwbeina, Caerdydd)**

**Llongyfarchiadau iddynt i gyd, Dysgodd Cris Jones, awdur y stori a enillodd y wobr gyntaf, rywfaint o Gymraeg yn yr ysgol uwchradd, ond mae wedi bod wrthi o ddifri nawr ers rhyw dair blynedd.**

Dyma rai o sylwadau'r beirniad ar straeon y buddugwyr:

*Brath yr Eithin* "Ni fyddai'n deg anghofio Brath yr Eithin — ond er bod yma greu naws o fath, a defnydd da o'r iaith, datganiad o ryw fath sydd yma yn hytrach na stori."

*Llanilltud Fawr* "Stori wych. Dyma'r *stori* orau o ddigon. Ond mae'r iaith yn wan iawn. Serch hynny, gwobrwyer hon (3ydd) ac annog yr awdur i ddal ati."

*Cobler y Coed* "Iaith gyda'r gorau yn y gystadleuaeth — efallai am nad oedd yn rhy uchelgeisiol. Mae yma adeiladwaith stori, ond nid yw'r stori ei hun yn wych. Mewn ffordd, y mae'n gorffen yn rhy ddiweddar — gellid fod wedi dileu'r ddwy frawddeg olaf. Ond, defnyddio'r iaith yn dda iawn."

*Guildenstern* "Iaith ar y cyfan yn dda, y stori wedi'i hadeiladu'n syml ac yn gymen, gyda rhai cyffyrddiadau hyfryd. Gormod o ôl cyfieithu yma ac acw — effaith hyn yw bod y disgrifiadau braidd yn orflodeuog. Ond effaith y cyfanwaith yn foddhaol."

Dywed Mr Lewis fod y penderfyniad yn un anodd: "Llanilltud Fawr oedd â'r stori orau, a Cobler y Coed a oedd yn fwyaf cartrefol yn yr iaith. Ond mewn cystadleuaeth fel hon, rhaid edrych am stori dda *a* iaith raenus, a theimlaf mai yn stori Guildenstern y ceir y cyfuniad hwn orau."

**Rhoddir gwobrau o werth £10, £5, £2.50 a £1.00 o docynnau llyfrau Cymraeg i'r pedwar hyn. Diolch yn fawr unwaith eto i Mr Illtyd Lewis am feirniadu ac i Mr Leighton Davies am ei haelioni mawr gyda'r gwobrau. Gobeithir cynnal cystadleuaeth arall y flwyddyn nesaf; fe gyhoeddir y manylion yn *Y Dinesydd* yn ystod yr hydref.**

# Y STORI FUDDUGOL

**Nid oedd y dydd wedi'i eni eto ar fyd y gamlas, a'r gwyll yn dal i deyrnasu'n unben arno. Ond fe ddeuai'r wawr fel her i'r hylltra hwn a chodai'r haul yn fuddugoliaethus o tu ôl i'r llwyf a oedd yn fur i'r afonig, a thaflwyd golau gorwyrdd y coed megis lliain sidan dros wyneb yr oerddwr. Dyddiau'r gleren Fai a'r gwybedyn oeddynt ac wrth i'r tes codi, ymffurfient yn gwmwl o darth llwydaidd uwch y gamlas; fel y cynyddai nerth yr haul torrai ar y fyrddiwn o ddagrau llith a'u troi'n arian byw. Saethai'r pelydrau oddi wrthynt, pelydrau megis nodwydd, nodwydd a weuai rhwng y cwmwl a'r coed a'r tes a sŵn byddarol yr adar nes creu'r holl olygfa'n frodwaith paradwysol.**

Cyfanrwydd oedd; esgynai'r haul a throai'r tapestri hardd yn gynfas dyfrliw yn ffresni'r bore. Datguddiwyd y golygfa yn ei holl brydferthwch: y llwybrau creithiog a dorrai ar hyd lannau'r gamlas; y gwrychoedd gwyrdd yn eu hymyl; yn y ffordd, clychau'r gog a'r danadl yn ffynnu gyda'i gilydd ar haen o dail a llufadron; y mangoed a'r llwyf yn gymheiriaid i'r gamlas ar ei ffordd tua'r gorwel. A dyna lle yr oedd, yn y pellter, y bwthyn bach gwyngalchog a daliai i glwydo yn ei nyth o goed afal. Edrychai'n anghydweddus yno, fel rhyw Gamelot ar ei fryn castellog neu gadeirlan fawreddog yn cyrcydu mewn cwm rhwng dyfnant a mor. Tarai gôlau'r haul arno; ymfflachiai'n fyw fel cannwyll llygad...

**(Parhad ar dud 5.)**

## Y STORI FUDDUGOL (Parhad)

...Clep drws. "...a bydda'i ddim yn hwyr, cofia," ynganai Mari wrth rithm ei chamau cywrain. Troediai'n fentrus i mewn i'r bore. Pymtheg oed oedd hi a rhedai ei gwallt melyn y tu ôl iddi yn y gwynt. Pob bore y cerddai fel hyn hyd lwybrau ei chynefin i flasu o'r newydd ei hapusrwydd ati. Doedd dim byd arall i'w wneud wedi'r cwbl; dim gwaith am na fynnai iddo fod; dim pryderon — nid oedd ei bywyd yn ddigon gymhleth i hynny a bu hi erioed mewn ysgol. Ond er na wyddai yr un ddim am y byd bygythiol y tu allan, adnabu ei byd clos ei hun yn ddigon dda. Lleoliad pob twmp a boncyff, bob nyth brân a phob twll llygod yng nghroen y tir.

Teimlai'n ddiolchgar nad oedd hi'n un o'r anffodusion, yn gorfod gweithio o foreddydd tan hwyrnos ar fferm neu mewn tŷ; teimlai'n ddiolchgar fod ganddi fam ddiog, rhy ddiog hyd yn oed i'w hannog i wneud gwaith. Yn y tŷ yr oedd y weddw nawr, yn myfyrio'n arall-fydol o flaen y tân myglyd, yn fodlon ei byd ar ôl brecwast o fara drewllyd a llaeth gafr. Edrychai'n llonydd yno, ynghanol helynt a stŵr y bwthyn — yr ieir niferus yn hel briwsion ymhob cornel o'r stafell fechan, a'i chorgi anghymedrol yn ceisio cadw pob cornel iddo ef ei hun. Ymddangosai'n llonydd, ond doedd hi ddim. Efallai yr oedd bywyd o wneud dim byd yn gymwys i Mari ond i wraig deg ar hugain oed roedd hi'n burdan. Ar wahan i'r achlysur pan droai un o'i phrin gymdogion i mewn i'w gweld hi, doedd dim byd arall ar ôl ond atgofion a gobeithion. Roedd hi'n ddwy flynedd er pan gollodd ei gŵr a doedd y baich ddim wedi'i leihau o gwbl — ond roedd hi'n dal yn bert, neu dyna beth y dywedodd Mari y diwrnod o'r blaen, beth bynnag, a doedd deg ar hugain ddim yn oed rhy hen i ail-briodi.

Ail-briodi. Ie, dyna'r moddion a gynnigiwyd gan Mari ar gyfer pob gwaeledd a ddeuai i ran ei mam, ac efallai roedd hi'n iawn. Ble'r oedd hi nawr, tybed? Yn syllu ar y cymylau fel arfer, roedd hi'n sicr. Ni fyddai bywyd yr un heb Mari, 'roedd hi a'i helyntion a'i hysgafnder yn rhywbeth i ddwyn y meddwl oddi ar bethau'r byd mawr.

* * *

Ar hyn o bryd roedd Mari'n esmwytho ar ben wal wrth iddi astudio'r dyn bach oedd yn chwythu a chwysu uwch beiriant stêm ei fad pryfdyllog. Roedd yr ysgraff fach wedi bod yn stond yno ers rhyw awr ac yr oedd llygaid Mari wedi'u hoelio ar yr olygfa trwy gydol yr amser. Wedi'r cyfan, nid yn aml y byddai'r hen ysgraffau'n mentro i fyny'r gamlas y dyddiau hyn, ar ôl dyfodiad y rheilffyrdd. A phan fyddai un ohonyn nhw'n torri i lawr... Wel, dyna i chi ddigwyddiad!

Ond, yn anffodus, nid oedd y gŵr truenus yn cael yr un mwynhad â Mari. Erbyn hyn 'roedd olew drosto fe i gyd a phoer a rheg yn dod allan o'i geg pob yn ail. Yn sydyn, collodd ei dymer yn gyfan gwbl a thaflodd ei sbaner yn wyllt i mewn i'r dŵr. Hwn oedd yr eiliad yr oedd Mari wedi bod yn aros amdano.

"Oes rhywbeth o'i le 'na?" gwaeddai o'i heisteddfan mewn llais eithriadol o ddiniwed. Agorai'r dyn ei geg a'i chau drachefn. Meddyliai Mari am foment ei bod hi'n gweld rhyw arlliw o gochni y tu ôl i'r haen o ddu, ond doedd hi ddim yn siwr. Edrychai'r dioddefwr tua'r dŵr fel petai'n cysidro dilyn trywydd ei sbaner ymadawedig ond yn lle hynny, troai ei ben i fyny ati, ail-drefnodd ei fwstas toreithiog ac atebodd yn yr un llais diniwed, "Nag oes, wir. Ond fe fyddai ddishgled bach o de yn siwtio fi i'r dim."

* * *

Tynnodd Mari'r drws ynghau am yr aildro y diwrnod hwnnw a chau i mewn y sgwrsio brwd ac aroglau olew a lenwai'r gegin fach. Nag oedd, doedd Jo bach yr ysgraffwr ddim yn briod. Oedd, roedd e'n lico'r deisen gwrens yn fawr iawn. Wedi'i phobl gartref? Wel, Duw! Duw! Byddai, byddai'n siwr o troi mewn tro nesa......

Ymlwybrai Mari tua'r gât gan tynnu afal o'r coeden wrth iddi fynd heibio fel rhyw fath o wobr. Cerddodd allan o'r ardd a dechrau unwaith eto hyd lannau'r gamlas.

CRIS JONES

Cylchdaith Cymru a Chaer
**CYFIEITHYDD RHAN-AMSER**

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser fel cyfieithydd yn Llysoedd y Goron yng Nghymru oddiwrth bersonau rhugl eu Cymraeg a'u Saesneg. Disgwylir i'r sawl a apwyntir ymrwymo i fod yn barod i'w hyfforddi i gyfieithu'n gyfredol ac i ymgymeryd â chyfieithu yn y Llys o bryd i'w gilydd yn unol â chais Gweinyddwr y Gylchdaith. Rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sy'n byw o fewn 25 milltir i Gaerdydd.

Ceir manylion pellach oddiwrth Allen Howe, Ysw., Gweinyddwr Cylchdaith Cymru a Chaer, Trydydd Llawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF1 4II. Dylai'r ceisiadau, ynghŷd â manylion cymwysterau, fod yn llaw'r Gweinyddwr erbyn Mai 10 1976.

# Miri Maesteg

**Digwyddiad Hanesyddol, os nad chwyldroadol, fydd sioe ganu pop fawr Urdd Gobaith Cymru ym Maesteg ar ddydd Sadwrn Mai 15.**

Gyda o leia chwe grŵp adnabyddus yn cymeryd rhan, fe gynigir perfformiadau byw ar lwyfan o 5.00 o'r gloch y prynhawn tan hanner nos. Grwpiau enwog fel Edward H. Dafis, Mynediad am Ddim a Josgin, heb son am Chwys, Bwyell a Henri fydd yn profi fod adloniant Cymraeg ar frig y don ar hyn o bryd.

Dyma'r ymdrech fwyaf yn y De i ddod â sioe o'r fath i'r llwyfan, a gobeithir wrth gwrs mai dyma'r cyntaf o nifer.

Diddorol nodi fod tri o'r grwpiau sydd yn perfformio â chysylltiad cryf â'r Aelwyd yng Nghaerdydd — mae aelodau Josgin, Bwyell a Henri yn aelodau neu gyn-aelodau o'r Aelwyd, a'r tri grwp yn wir wedi dechrau eu gyrfaoedd ar lwyfan dawns yr Aelwyd.

Mae'n debyg fod Recordiau Sain wedi dangos diddordeb mewn recordiad o'r sioe ym Maesteg, a phwy a ŵyr, efallai y gwneir record hir o'r holl sŵn.

Peidiwch â cholli'r cyfle — dewch i'r MIRI a mwynhewch!

# £1,000,000 – amen!

**Nos Iau, yr unfed ar ddeg o Fawrth, mil naw saith chwech, daeth gweithgareddau Cronfa'r Mil o filoedd i ben. Bu criw bychan wrthi'n galed am fisoedd yn casglu, ac mae'r arian yn para i ddod i mewn — a nodwyd yn y pwyllgor y bydd y cyfanswm yn y pen draw yn £13,000 neu ragor.**

Mynegwyd llawenydd a siom yn y pwyllgor olaf — llawenydd am i gymorth a chefnogaeth ddod o rai mannau lled annisgwyl, a siom oherwydd i ddiffyg cefnogaeth gael ei ddangos yn aml — eto o rai mannau lled annisgwyl, a chofio y bydd yr Eisteddfod ei hun gyda ni yn 1978.

Dywedodd rhai i ry ychydig o bobl, efallai, geisio gwneud gormod mewn rhy ychydig o amser, a dichon fod peth gwir yn hyn. Ond yr hyn y ceisiwyd ei wneud oedd gwasgaru'r baich hyd y gellid a'i osod ar nifer o ysgwyddau.

Er enghraifft, teimlwyd y byddai'r Nofio nawdd a gynhaliwyd yn ysgol Glan-y-nant yn rhoi cyfle i'r plant di Gymraeg ddod i mewn i weithrediadau'r Eisteddfod, ond yr unig ysgol i ddangos brwydfrydedd amlwg dros y syniad oedd Ysgol Uwchradd Howardian — ac fe ddaeth un plentyn at gadeirydd pwyllgor y gronfa i gyhoeddi'n llon, "Today, I am swimming for Wales!" Ac yr oedd, wrth gwrs. Siomedig, hefyd, oedd y noson a gynhaliwyd yn y Sherman, noson i'r bobl ifanc — y rhai hynny sy'n cwyno nad oes "diawl o ddim" yn cael ei ddarparu ar eu cyfer. Fe ddarparwyd, a hynny gan dîm o bobl ifanc brwdfrydig, ac fe gafwyd noson dda — ond gwaetha'r modd, lawer gormod o seddau gweigion.

Does gen i mo'r gofod i sôn am bopeth — ond mae'r pwyllgor yn awyddus i ddiolch i bawb a gefnogodd i gasglu'r arian a gasglwyd. Ac ar Fawrth 19, mewn cyfarfod yn Neuadd y ddinas, cyflwynodd is-gadeirydd y pwyllgor, Mrs Mallt Anderson, siec swmpus i Gwyndaf — gan ddweud yn ddigon teg ei bod wedi cyflawni gorchest anodd a hithau'n Gardi, sef rhoi arian! Yn ei eiriau o ddiolch, dywedodd Gwyndaf fod Pwyllgor Cronfa Caerdydd wedi rhoi mwy na'r un pwyllgor arall hyd yn hyn a gwelai hyn fel ernes dda i'r dyfodol.

Gobeithio'i fod yn broffwyd! Achos, os daw'r Eisteddfod, fe fydd angen casglu ychydig yn rhagor — tua £250,000!! Fe ddaw llawer o hwn, wrth gwrs, oddi wrth gynghorau a thrwy werthu tocynnau yn ystod yr ŵyl ond mae'n gallu edrych yn anferth ar bapur!

# LLYFRAU NEWYDD

## Y Llewod yn Llamu Ymlaen

**Mae'r Llewod yn ôl yn ein plith unwaith eto, a Gwasg y Lolfa a Dafydd Parri yn cadw at eu haddewid o ddarparu cyfres helaeth o'r nofelau cyffrous hyn i blant mewn byr amser gyda chyhoeddi'r ddwy gyfrol ddiweddaraf ym mis Mawrth. (Cyfres y Llewod, 3 a 4.)**

Ynddynt, mae Llinos, Einion, Wyn, Orig a Delyth (sef y Llewod, oherwydd llythrennau cyntaf eu henwau) yn dal i faglu ar draws anturiaethau fel bydd pobl eraill yn llithro ar groen banana, ond yn cael llawer gwell hwyl arni nag anffodusion felly. I mi, *Y Llewod a'r Ceffyl Gwyn* yw'r orau o'r pedair a gyhoeddwyd hyd yn hyn; yn sicr, hon yw'r fwyaf cyffrous gyda'r rhannau yn yr hen chwarel llawn ysbrydion yn ddigon i rewi gwaed y dewraf ohonom... ond ddweda'i ddim mwy na hynny am y stori, rhag ei difetha.

Unwaith eto, mae 'na ôl brys ar yr ysgrifennu (fel y gellid ei ddisgwyl, wrth reswm) ac anghysonderau bach y tu fewn i'r stori ei hun y bydd unrhyw blentyn hanner call yn eu cael yn niwsans. Er enghraifft, eir i drafferth i sefydlu mai ceffyl gwyn gwahanol yw'r un a gaiff Bethan Prys yn ôl wedi'r lladrad — ond does dim byd o bwys yn datblygu o hynny. Fel petai'r awdur yn cychwyn ar syniad ac yna'n ei ollwng yn ddirybudd ar ganol stori.

Serch hynny, prin bod angen hollti blew fel hyn ynglŷn â straeon mor afaelgar a hwylus â'r rhain. Dydy stori'r Wennol Goch ddim mor gyffrous â stori'r Ceffyl Gwyn efallai, ond mae'n llwyddo i gyfleu peth wmbredd o wybodaeth am bynciau mor amrywiol ag adar gwyllt, Gwlad Groeg, techneg meicroffilm ac ati mewn ffordd ddifyr na sy'n amharu dim ar rediad y stori. Edrychwn ymlaen at y cyfrolau nesaf; am 65c y gyfrol, does dim esgus gan neb dros beidio â chasglu'r gyfres i gyd. A chi blant Caerdydd — ydych chi i gyd yn aelodau o Glwb y Llewod erbyn hyn? Mae ffurflen ymaelodi i'w chael ar ddiwedd pob cyfrol.

*(Y Llewod a'r Ceffyl Gwyn; Y Llewod a'r Wennol Goch, y ddwy gan Dafydd Parri. Gwasg y Lolfa. Pris: 65 yr un.)*

## Mynd i 'Merica

Aeth parti o blant o Ysgol Uwchradd Eglwysnewydd i'r Unol Daleithau ar ddydd Llun, Mawrth 29ain. Maent wedi mynd i Norristown yn nhalaith Pennsylvania a byddant yn aros am fis gyda theuluoedd plant sydd yn ddisgyblion yn y Norristown Area High School. Tra byddant yn Norristown, bydd y plant yn dilyn gwersi yn yr ysgol yn America. Yn yr haf fe ddaw'r Americanwyr i Eglwysnewydd i aros gyda'r plant a fu yn Norristown.

Mae Norristown yn agos i Philadelphia, "the city of brotherly love" a sefydlwyd gan William Penn, y Crynwr. Yn gynnar iawn fe aeth Crynwyr o Sir Feirionnydd i Bennsylvania i sefydlu beth a elwir yn "Welsh Tract" yn y wlad honno, cefndir hanesyddol nofel adnabyddus Marion Eames, *Y Rhandir Mwyn*. O gwmpas Norristown heddiw fe geir enwau lleoedd fel Bala Cynwyd, Gwynedd, North Wales, Bryn Mawr, Bryn Athyn ac eraill.



*Y parti o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd cyn iddynt gychwyn ar eu taith i America ddiwedd mis Mawrth.*

## Llyfr i'r Plant Llai

Llyfr arall diddorol sydd newydd ei gyhoeddi gan Y Lolfa yw Miri Meithrin, gan Margaret Lloyd Hughes, gyda llu o ddarluniau difyr gan ein cartwnydd hoff, Cen. Llawlyfr i athrawon Ysgol Feithrin a mamau plant bach yw hwn, ac y mae'n siwr y bydd yn eithriadol o ddefnyddiol iddynt gyda'i ddetholiad helaeth o ganeuon a rhigymau o bob math, a thudalennau ar dudalennau o deganau a modelau syml i'w gwneud. Hwyl i blant a phobl mewn oed fel ei gilydd.

*(Miri Meithrin gan Margaret Lloyd Hughes. Lluniau gan Cen Williams. Gwasg y Lolfa. Pris: 80c.)*

## CALENDR EBRILL - MAI

**EBRILL**

8 Cylch Meithrin Llanfihangel ar Elai **DAWNS A DISCO** gyda'r Triban. Clwb y Wanderers, Grand Avenue, Trelai. 8.30p.m.

9 Cylch Meithrin Y Waun **FFWLBRI EBRILL** Eirwyn Pontshan Y Diliau. Tŷ Maeth 8.00p.m.

23 Cwmni Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru **HAMLET** (cyf. J.T. Jones) Theatr Sherman 2.00p.m. Tocynnau 40c.

26 Tŷ'r Cymry **CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL.**

**MAI**

9 Mudiad Ysgolion Meithrin **WEDI'R OEDFA** Noson o ganu gwerin, canu penillion a barddoniaeth. Theatr Sherman 8.00p.m.

15 Urdd Gobaith Cymru **MIRI MAESTEG** Noson Bop anferthol. Neuadd y Dref, Maesteg. 5.00p.m. ymlaen.

13-15 Theatr yr Ymylon **POBL YR YMYLON** gan Idwal Jones. Yr Arena, Theatr Sherman.

21-22 Theatr Cymru **BYW YN Y WLAD** Yr Arena, Theatr Sherman 8.00p.m.

22 Ysgol Feithrin Rhiwbeina **CYNGERDD** gyda Chantorion Ardudwy, Cor Meibion o'r Almaen, Richard Rees (Bass), Iwan Davies (Tenor), Lisa a Gwyn Erfyl (Penillion). Theatr Reardon Smith 7.30p.m.

28 Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Y Ddarlith Flynyddol **ENWAU PERSONAU YNG NGHYMRU** Dr Thomas Parry. Yr Arena, Theatr Sherman. 7.00p.m. Tocynnau: £1 (gan gynnwys swper penglin).

# Merched wrth eu Gwaith

**Trefnwyd cynhadledd undydd yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn Mawrth 20fed gan Bwyllgor Cymru dros Hawliau Merched. Pwrpas y gynhadledd oedd trafod y deddfau newydd a ddaeth i rym ddechrau'r flwyddyn, y ddeddf tâl cyfartal a'r ddeddf gwahaniaethu ar sail rhyw, a gweld i ba raddau y gweithredir hwy yng Nghymru.**

Cawsom amlinelliad o'n hawliau o dan y drefn newydd a'r dulliau o gwyno'n swyddogol mewn achos o wahaniaethu gan Sheila Rothwell o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Dr Oonagh Hartnett o Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cymru. Pasiwyd yn unfrydol gynnig y dylai'r Comisiwn Cyfle Cyfartal sefydlu swyddfa yng Nghymru. Soniodd Dr Sheila Abdulla o'r Mudiad Cynllunio Teuluoedd ar anghenion menywod ym maes y gwasanaeth iechyd, ac Audrey Wise AS am yr angen i leihau gwario ar arfau a defnyddio'r adnoddau a ryddheid felly i bwrpasau heddychlon. Cadeiriwyd y gynhadledd gan Ann Clwyd.

Mae croeso i unrywun a hoffai helpu i weithio dros hawliau merched, neu sydd ag angen cyngor am eu hawliau, i gysylltu â Phwyllgor Cymru dros Hawliau Merched, d/o 108 Salisbury Road, Caerdydd.

GWEN AWBERY




## BETI HEINI

Pleser oedd clywed fod Beti George, gohebydd blaenllaw gyda'r BBC, wedi'i hysbrydoli gan erthygl a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r *Dinesydd* i fynd draw i Radyr i ymuno â'r bechgyn sydd wrthi'n cadw'n heini yno bob nos Lun. Rhwydd hynt iddi yno.


## TELERAU HYSBYSEBU

Ar ôl dal ein telerau hysbyseb yn yr unfan am ddwy flynedd, mae costau cynyddol wedi ein gorfodi ni i godi mwy am hysbysebu yn *Y Dinesydd*. Serch hynny, deil yn rhesymol, ac yn sicr y ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i unryw ddigwyddiad Cymraeg yng Nghaerdydd a'r cylch yw drwy hysbyseb yn y papur hwn. Am fanylion llawn, cysyllter â Chyhoeddiadau ap Dafydd Cyf., 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa. Ffôn: 396262.


# colofn sbectol SIAN *

## LLYFRYN

Yng nghanol yr holl drafferthion y dyddiau hyn, a'r holl gwestiynau llosg, y cwestiwn y carwn i ei ofyn yw "Beth ydy bargen?" Hanner pris am hwn, thrypyns off y llall, prynu un a chael un arall am ddim ac ati. Wel, roedd arwerthiant llyfrau arall yn Oriel yr wythnos diwethaf ac ar ôl cofio'r escapêd gyntaf honno (*Dinesydd* Rhif 14), rhuthrais yn eiddgar tuag at y toreth llenyddiaeth. I dorri'r stori'n fyr, gwelais lyfryn gwerth 25c (yn ôl y label) yn gwerthu am 10c. Bargen y flwyddyn yn siwr! Prynais y llyfr gwerthfawr a sylwi fod label arall o dan yr un 25c. Dangosai hwnnw bris o 3/6. Tynnais hwnnw a darganfod pris gwreiddiol y llyfr — 2/6! Ie wir, roeddwn wedi arbed 2½c — heb ystyried chwyddiant. Dyna ichi beth oedd siom.

## LLYFR

Galwais yn arddangosfa newydd Cyngor y Celfyddydau, *PRIODAS*, yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Roedd nifer o lyfrau ar werth yno hefyd. Rhai perthnasol i'r arddangofa mae'n debyg — fel y gyfrol *ART AND SOCIETY — SEX*. Ar gornel clawr y llyfr roedd label, "*Welsh Arts Council: HANDLING COPY*! Dyna ichi beth yw llyfr â gafael ynddo.

## TAFLEN

Gadewch imi son am ddogfen hanesyddol arall a gyhoeddwyd ym mis Hydref 1975 — yr un diwrnod â rhyddhau Hefin a Rhodri o'r carchar, gyda llaw (*Dinesydd* 22 a 24). Ydych chi'n hoffi'r cyfeiriadau 'ma i'r gorffennol? Dangos 'chydig o raen, ynte! Sut bynnag, taflen a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Post yw hon, ar *Y Gwasanaeth Post a'r Iaith Gymraeg*. Ceir amlinelliad o agwedd newydd Swyddfa'r Post tuag at y Gymraeg. Dyma dameidiau blasus ohoni:

"...Penderfynwyd mai'r Gymraeg a gaiff flaenoriaeth lle bynnag y defnyddir y ddwy iaith...... Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr egwyddor y dylai fod yn bosibl i'w gwsmeriaid drafod eu busnes... yn Gymraeg..." Gofynnwch (yn Gymraeg) am gopi yn eich Swyddfa Bost leol.

## TOCYN

Mae'n debygol y bydd busnes y parcio, neu'r dim parcio yn hytrach, yng Nghaerdydd yn achosi trafferthion yn y dyfodol. Mae hyn yn fy atgoffa am yr arwydd a welais y tu allan i dref Aberhonddu. Y neges oedd *Please drive carefully through the town*. Roedd rhywun wedi peintio rhannau ohono nes ei fod yn darllen, *Please drive through.*! Neges i deithwyr sy'n bwriadu dod i Gaerdydd efallai.





**Sain**

CAMPWAITH HEFIN ELIS — AR RECORD NEWYDD

"GORFFENNWYD"

STORI'R PASG AR FFURF OPERA ROC-WERIN gydag EMYR WYN, CLEIF, CARYL a DEWI PWS (SAIN 1044M)

CÔR MEIBION CAERNARFON A BAND Y FFIWSILWYR — SAIN 1039D
CERYS HUGHES-TAYLOR — "AR ADAIN Y GÂN" — SAIN 1042D
HEFYD CASETIAU NEWYDD! :-
C517N — "TEULU YNCL SAM" — SIDAN
C521N — "WA MACSPREDAR" — MYNEDIAD AM DDIM
C534N — "FFORDD NEWYDD EINGL-AMERICANAIDD GRÊT O FYW" EDWARD H. DAFIS.

SAIN (RECORDIAU) Cyf., Penygroes, Caernarfon



Mudiad Ysgolion Meithrin

**SWYDDOG DATBLYGU MORGANNWG GANOL**

Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod, yn rhan-amser neu'n llawn-amser.

Cyflog yn ôl cymwysterau a phrofiad hyd at £2,750 y flwyddyn.

Disgwylir i'r person a apwyntir fod â phrofiad trefnu, a/neu waith meithrin, a/neu wasanaeth cymdeithasol, ond bydd y pwyllgor yn barod i ystyried personau a chymwysterau eraill, pe bai ganddynt adnabyddiaeth bersonol o Forgannwg Ganol.

Ffurflen gais a manylion pellach o Swyddfa Mudiad Ysgolion Meithrin, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd.

# EBENESER yn dathlu

**O Nos Iau, Mawrth 11 hyd nos Sul, Mawrth 14, bu Eglwys yr Annibynwyr yn Ebeneser, Caerdydd yn dathlu Canmlwydd a Hanner yn ei hanes. Hi yw Mam Eglwys pob Achos gan yr Annibynwyr Cymraeg yn y Brifddinas.**

Ar gyfer yr achlysur hwn cyhoeddwyd llyfryn yn rhoi braslun o hanes yr Achos hyd at ddiwedd cyfnod y Dr Rees Griffiths gan W.C. Elvet Thomas, a phennod ar weinidogaeth ein gweinidog presennol, y Parchg. Emlyn G. Jenkins (sydd ar hyn o bryd yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg), gan Aneirin Lewis. Mae ynddo hefyd gyfarchiad a neges amserol gan ein gweinidog.

Daeth gweinidog cyntaf yr Eglwys o'r Brychgoed, Cwm Senni, Defynnog, a bu iddo olyniaeth deilwng iawn. Bu'r tri diwethaf o'n gweinidogion yn flaenllaw yn hanes Cymru heb son am Gaerdydd a'r cylch — sef y Dr H.M. Hughes a'r ddau a enwyd eisoes.

Cafwyd oedfaon ysbrydoledig a gobeithiol ac amrywiol. Nos Iau, i ni'r aelodau yr oedd yr oedfa ond daeth llawer o gyfeillion i gadw cwmni â ni. Gwahoddwyd pawb a oedd yno ac a gredai yn Ein Harglwydd Iesu Grist, waeth i ba enwad y perthynai, i ymuno â ni yn Sacrament y Cymun. Roedd y cyfan yn oedfa o fawl i Dduw ac o ail-ymgysegriad i'w waith. Nos Wener cawsom noson gymdeithasol i rieni, ieuenctid a phlant yr Eglwys. Daeth pawb yno a allai ddod ac roedd y festri dan sang — pawb yn mwynhau'r danteithion a baratowyd dan arweiniad Mrs Emlyn G. Jenkins. Yr oedd yma naws hyfryd o gyfeillgarwch ac agosatrwydd a chafwyd cyfle gwych i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well o lawer. Wedi clirio'r byrddau cafwyd noson o gerddoriaeth — â lleisiau ac offerynau cerdd — dan ofal John Ewart Jones, gan blant a ieuenctid yr Eglwys. Noson i'w chofio.

Nos Sadwrn cafodd cynrychiolwyr gwahanol sefydliadau gyfle i'n cyfarch. Ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, siaradodd y Parchg. Iorweth Jones, yr Ysgrifennydd; ar ran y Cyfundeb ac Eglwysi Annibynol Caerdydd, cyfarchwyd ni gan y Parchg. D.T. Evans; ar ran Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd (gan gynnwys Eglwys Dewi Sant) dywedwyd geiriau pwrpasol gan y Parchg. Iorwerth Hughes; gorffennwyd y cyfarchion gan ddirprwy Arglwydd-Faer Caerdydd, yr Henadur Ferguson Jones (a chynhwysodd yn ei gyfarchiad un oddi wrth yr Arglwydd Faer, Syr Charles Hallinan). Ond uchafbwynt y noson oedd araith feistrolgar Mr Leslie Jones, ein hysgrifennydd. Llefarodd ar brydiau dan ddwyster wrth son am orffennol yr Eglwys a'r gwŷr blaenllaw a fu'n gwmwl tystion ynddi, ac wrth bwysleisio mai ein prif ddyletswydd, bellach, yw parhau'r gwaith da a wnaethant trwy fwrw ymlaen i sicrhau dyfodiad Teyrnas Dduw a'n Harglwydd Iesu Grist ar y ddaear yn ein rhan ni ohoni.

Dydd Sul cafwyd cyfarfodydd pregethu. Y gŵr gwadd oedd y Parchg. Ddr. W.T. Pennar Davies, prifathro Coleg Coffa Abertawe. Yn ôl ei arfer traddododd neges amserol ac ysbrydoledig.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfodydd hyn gan ddau a godwyd i'r Weinidogaeth ac un a dywyswyd i'r Genhadaeth Dramor gan ein gweinidog, sef y Parchg. Hywel T. Mudd, y Parchg. Jonathan E. Thomas a Miss Gwyneth J. Evans. Ymhob cyfarfod rhoddwyd yr emynau allan gan blant ac ieuenctid yr Eglwys.

MAIR ELVET THOMAS

## *Cerdd ar gyfer y Dathlu*

*PONTYDD*

Tôn : Ebeneser


*Crogwyd pont dros ddyfroedd Menai,*
*Taflwyd ffordd o lan i lan.*
*Wrth ei chodi, rhwymodd mintai*
*Glymau rhyddid uwch y fan.*
*Saif yn hardd a chryf a phendant,*
*Heb gyffroi er pwys y don*
*Fo'n ysgubo dan ei rhychwant*
*Neu'n ymgyrchu hyd ei bron.*

*Crogwyd Mab dros fôr o bechod —*
*Ef yw'r Ffordd at borth yr Hedd.*
*Chwysodd, gwaedodd rhwng dihirod,*
*Yna — chwalu rhwymau'r bedd.*
*Erys byth yn ddigyfnewid*
*Ac aruchel gyda'r Tad,*
*Eto plyg at fyd y gwendid —*
*Rhydd gynhaliaeth a chryfhad.*

*Pont y gras yw Ebeneser,*
*Cadarn ffordd at Ffordd y Byw,*
*Clwm cyfeillach rydd a hyder*
*Yn yr unig bensaer — Duw.*
*Er dadfeilio dyn a'i lafur,*
*Ni bydd tranc i'r saint na'u gwaith:*
*Nerth yw ffydd yr adeiladwyr*
*I gynlluniau'r Deyrnas Faith.*

GILBERT RUDDOCK


GORFFWYSWCH — YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. Crookes)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU : FFÔN CAERDYDD 31174

(Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.


# Ydych Chi'n Siarad Cymraeg?

Ydyn, yw ateb nifer o blant ysgolion cynradd Caerdydd, ond eu problem yw na chânt ddigon o gyfle i siarad yr iaith. Oherwydd syniadau Mr Gwilym Roberts a Mr B.D. Harries, mae'n bosibl y dehonglir y broblem hon i nifer o'r plant. Ar galan Mai eleni, bydd tua thri dwsin ohonyn nhw yn dod i Goleg Addysg Cyncoed am ryw fath o wersyll bore Sadwrn. Cânt gyfle i ddefnyddio adnoddau'r coleg, siarad â myfyrwyr ac ati a chreu hwyl yn Gymraeg.

Os bydd yr arbrawf yn llwyddiant, fe fydd bore Sadwrn yn cael ei drefnu'n rheolaidd.

## DYFODOL EBENESER

Un nodyn trist yng nghanol llawenydd y dathlu yw'r ansicrwydd sy'n dal i fod ynglŷn â dyfodol Eglwys hynaf yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. Fel sy'n hysbys i bawb, bydd yr adeilad presennol yn diflannu wrth i Gyngor y Ddinas gwblhau eu cynlluniau i wastadhau canol Caerdydd yn llwyr. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ail-gartrefu'r aelodau mewn adeilad newydd sbon ar safle arall, digwyddiad cyffrous a chalonogol dros ben mewn cyfnod pan mae mwy o son am gapeli'n dirywio a gorfod cau nag am adeiladu rhai newydd. Mae'r cynlluniau eisoes wedi eu tynnu allan am eglwys newydd i'w hadeiladu ar safle Neuadd Jackson yn Stryd Westgate.

Ond, yn y cyfamser, tyfodd gwrthwynebiad yn erbyn dymchwel Neuadd Jackson, am fod y Neuadd yn adeilad o werth hanesyddol. (A beth am yr Ebeneser presennol, meddech chi?) Fe gynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y dyfodol agos i roi cyfle i bobl fynegi eu gwrthwynebiad; digon teg.

Ond beth os llwydda'r gwrthwynebwyr i achub Neuadd Jackson? I ble'r aiff Ebeneser wedyn? A beth am y cynlluniau sydd eisoes wedi eu paratoi (a'r cyngor eisoes wedi talu amdanynt?) A fydd yn rhaid cynllunio eglwys arall i ateb gofynion safle newydd? A faint o amser a gymer hynny? Yn ôl cynlluniau'r Ddinas, mae safle bresennol Ebeneser a'r holl dir o gwmpas fod wedi ei glirio'n llwyr erbyn 1978.

Methwyd â chael gwybodaeth bendant gan Adran Gynllunio'r Ddinas hyd yn hyn, ond byddwn yn dal i ofyn, a gobeithio y ceir goleuni pellach ar y mater erbyn y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd*.

GOHEBYDD ARBENNIG

# Eisteddfod yr Urdd y Barri a'r Fro 1977

# GŴYL GYHOEDDI YR EISTEDDFOD

Trefnir gŵyl ym Mis Mai eleni i gyhoeddi yn swyddogol fod Eisteddfod yr Urdd 1977 i'w chynnal yn y Fro. Gobaith y Pwyllgor Gwaith yw fod rhywbeth yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos a fydd o flas i bawb a dyna'r prif rheswm am yr amrywiaeth.

Yn y Noson o Ffilmiau ar y Nos Lun, bwriedir ddangos ffilmiau am Gymru ond drwy'r iaith Saesneg er mwyn apelio at y Cymry di-Gymraeg. Fe fydd y Sioe Ffasiynnau yng Ngholeg y Barri ar y Nos Fawrth yn apelio at y merched pan ddangosir gwaith myfyrwyr y Coleg.

Mae'n amlwg erbyn hyn fod cymaint o bobl am glywed plant Ysgol Bryn Hafren yn cynnal eu cyngerdd ar y Nos Fercher, fel y bydd rhaid yn awr cynnal y cyngerdd yn y Neuadd Goffa ac nid yn yr ysgol fel y bwriedir pan drefnwyd y cyngerdd. Ar y Nos Iau cewch gyfle i weld ac i brynu gwaith crefftwyr y Fro yn yr Arddangosfa a'r Arwerthiant a gynhelir hefyd yn y Neuadd Goffa.

Ar y Nos Wener fe gynhelir "Dawns y Cyhoeddi" yn "Y Bindles". Mae'r tocynnau yn barod wedi eu hargraffu ac mae galw aruthrol amdanynt. Pris y tocynnau fydd £3 yr un ac am eich arian cewch wledd o fwyd o bedwar cwrs ac hefyd dawnsio hyd un o'r gloch y bore.

Prynhawn Dydd Sadwrn, cynhelir prif ddigwyddiad yr wythnos, sef Y Seremoni Gyhoeddi. Fe fydd plant ysgolion yr ardal yn gorymdeithio gyda Bandiau drwy'r dref i'r Neuadd Goffa lle cynhelir y Seremoni am 3.00 o'r gloch. Yn syth ar ol y Seremoni, fe fydd Disco i'r plant yn y Neuadd ac mewn rhan arall o'r Neuadd, Ffair y Cyhoeddi i'r oedolion gyda stondinau o nwyddau ac ati.

Ar ôl holl waith y prynhawn ac wedi i'r plant fynd iw gwelyau, fe fydd cyfle i ymlacio yn Nhrewallter Fawr lle cynhelir Barbeciw a llawer o hwyl a sbri a digon i fwyta ac yfed. Pris y tocynnau fydd £1.50 yr un.

Os oes unrhywun am brynu tocynnau i'r Ddawns ar y Nos Wener neu'r Barbeciw ar y nos Sadwrn, danfonwch at Ysgrifennydd y Pwyllgor, Alun Daniel, 4 Erw'r Delyn Close, Sully Road, Penarth neu cysylltwch a unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

Yn ôl yr hen arferiad Cymreig, daw'r wythnos o ddathlu i ben drwy gynnal Gymanfa Ganu yn y Tabernacl Y Barri ar y Nos Sul am 8.00 o'r gloch.


# Eisteddfod yr Urdd y Barri a'r Fro 1977

# GŴYL GYHOEDDI — MAI 17-23 1976

I'W AGOR GAN GERALD DAVIES

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, Mai 17 | – | Noson o Ffilmiau |
| Nos Fawrth, Mai 18 | – | Sioe Ffasiynnau |
| Nos Fercher, Mai 19 | – | Cyngerdd gan Blant Ysgol Bryn Hafren |
| Nos Iau, Mai 20 | – | Arddangosfa ac Arwerthiant Celf a Chrefft |
| Nos Wener, Mai 21 | – | Dawns yn y Bindles |
| Prynhawn Sadwrn, Mai 22 | – | 2 o'r gloch — Gorymdaith<br>3 o'r gloch — Y Seremoni Gyhoeddi<br>3.30 o'r gloch — Ffair<br>Disco i'r Plant |
| Nos Sadwrn, Mai 22 | – | Barbeciw |
| Nos Sul, Mai 23 | – | Gymanfa Ganu — Capel y Tabernacl, Y Barri. |

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## CYMDEITHAS GYMRAEG

### CAERFFILI

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni gyda noson o Gawl a Chân yng Nghanolfan y Twyn. Dan arweiniad medrus Mr D.J. Owen canodd y gynulleidfa nifer o'r hen ffefrynau a chafwyd eitemau gan Sian Parry, Catrin Rowlands, Ieuan Williams a Dewi ap Rhobert. Wrth gynnig diolch ar ran y Gymdeithas talodd y Parchedig Denzil John deyrnged arbennig i'r merched a fu wrthi'n chwysu dan amgylchiadau anffarfiol iawn i baratoi'r cawl!

Yng nghyfarfod y Gymdeithas ar ddiwedd mis Mawrth croesawyd Alun Evans, ei deulu, Parti'r Wenallt a Mona Meirion i gynnal noson ysgafn o ddifyrrwch yr aelwyd — un o nosweithiau gorau'r Gymdeithas ers llawer dydd.

### LLANBRADACH

Daeth nifer gref i Neuadd y Gweithwyr, Llanbradach, i fwynhau noson lawen er budd nifer o fudiadau yn y pentref. Ymysg yr artistiaid roedd plant Ysgol Gymraeg Caerffili, guides Llanbradach, Hawys Glyn a'r Diliau. Trefnwyd y cyngerdd gan gnewyllyn o weithwyr brwd o'r pentref a braf yw gweld fod y fenter flynyddol hon yn llwyddo i ddenu pobl yr ardal i weld ac i werthfawrogi adloniant Cymraeg a Chymreig.

### MERCHED Y WAWR

Yn dilyn trafod brwd ymysg merched Caerffili am y posibilrwydd o sefydlu cangen o Ferched y Wawr yn y cylch cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar i fynd â'r maen i'r wal. Gwahoddwyd Mrs Ann Rees, Llywydd y mudiad ym Morgannwg Ganol, i annerch y cyfarfod ac, o ganlyniad, penderfynwyd mynd ati yn ddiymdroi i ddewis pwyllgor ac i drefnu rhaglen. Etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd, Mrs Vera ap Rhobert; Is-Lywydd, Mrs E.J. Richards; Ysgrifennydd, Mrs Eleri Betts; Trysorydd, Mrs Moyra Davies; Gohebydd y Wasg, Mrs Menna Roberts. Cafodd yr aelodau newydd gyfle yn y cyfarfod agoriadol i fwynhau sgwrs gan Mrs Mair Saunders Jones ar waith cwmni Miri Cymru a soniodd Mrs Mair Elvet Thomas am y Cyngor Llyfrau. Cynhelir cyfarfodydd y gangen yng Nghanolfan y Twyn, Caerffili, a bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 29 ar ffurf noson goffi i ddysgwyr. Ceir rhagor o fanylion am waith y gangen oddiwrth Eleri Betts, Afallon, Llwyn Eithin, Caerffili - 867033.

### LLYGOD I'R EISTEDDFOD

Er fod ymgyrch swyddogol Cwm Rhymni i godi arian at Gronfa'r Mil o Filoedd wedi gorffen erbyn hyn eto mae ychydig o arian yn parhau i gyrraedd. Cafwyd y cyfraniad diweddaraf oddiwrth Mrs Eluned Harries Williams, Tredegar Newydd, yn dilyn gwerthiant nifer o lygod ffelt o'i gwaith ei hun. Llwyddodd y cyfraniad hwn i godi cyfraniad y cwm i dros £2, 750. Tybed a fyddai modd i bwyllgor Caerdydd elwa ar y syniad hwn — neu, a dilyn y syniad gam ymhellach, beth am gynhyrchu haid o lygod mawr a'u gwerthu am bris uwch?!

### AELWYD CAERFFILI

Mae pawb yng Nghaerffili yn edrych ymlaen yn eiddgar at ymweliad Côr Godre'r Garth i gynnal cyngerdd er budd Cronfa Adeiladau'r Aelwyd ar nos Wener, Mai 14, am 7.30p.m. yn neuadd Ysgol Gyfun Martin Sant. Bydd plant yr ysgolion Cymraeg lleol yn cynnig ychydig o eitemau amrywiol yn ystod y noson. Tocynnau ar werth yn awr o bwyllgor yr Aelwyd am 50c (yn unig!) neu 25c i blant a phensiynwyr.

### LLINOS

Llongyfarchiadau i John ac Elin Owen, Caerffili, ar enedigaeth merch, Llinos, ar Fawrth 21 yn Ysbyty'r Glowyr.

Mae'r ail rifyn o FFWLBART, comic Cymraeg Caerdydd a'r Cylch wedi cael derbyniad da iawn, a nifer helaeth o gopïau wedi eu gwerthu. Drwy'r ysgolion y dosberthir copiau yn bennaf, ond y mae copiau ar werth yn Siop y Triban, Oriel a Chanolfan yr Urdd. Fe fydd y rhifyn nesaf (rhifyn arbennig ar gyfer 'Steddfod yr Urdd) allan ddechrau mis Mai.

Oriel

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

Record newydd!

Pryderi and his Pigs, record gyntaf ORIEL, ar ei label ei hun. L.P. Stereo £2.00.

Digwyddiadau AWR GINIO

Dydd Iau : Ebrill 8

ECLIPSE. Grwp o bobl ifanc o'r Amerig a Chymru yn chwarae cyfansoddiad cyntefig mewn jazz diweddar.

Dydd Mawrth Ebrill 27

LESLIE NORRIS: Bardd Eingl-Gymreig, 1.00 - 2.00p.m.




Stesion Cantamil
i blant Cymru
bob dydd Gwener
am
4.20p.m.
gan
Adran Blant

HTV
CYMRU WALES

# DYDDIADUR DYN DWAD

## 1. O'R *BLACK BOY* I'R *NEW ELY*

**Dim ond ers rhyw fis neu ddau buesh i yma ac ella nad oes gin i ddim hawl i alw'n hun yn *ddinesydd* go iawn 'fath â rhai ohonoch chi sydd yma ers cantoedd. Deud y gwir wrthach chi, mae'n gwestiwn gin i arhosa'i'n ddigon hir i fod yn ddyn dinas go iawn chwaith. Isho denig o 'ma bob gafael rwsut.**

O'n i'n gweithio ers gadish i'r ysgol yn Bernard Wardle yn Gaernarfon nes ath petha'n fain arnyn nhw fel pawb arall llynadd a gesh i sac, do. Nesh i laru ar stelcian o gwmpas y pybs a'r caffis yn dre drw'r dydd a nath hogia dôl roid y cynnig 'ma i fi. Mi ellwch chi fynd i rwla yn y wlad 'ma i chwilio am waith a mi dalan nhw'ch costa teithio chi a'ch helpu chi'n o lew dan rhyw sgîm arall i setlo lawr yn fanno wedyn. Too good to miss o'n i'n meddwl, ia?

Nesh i benderfynu dwad i Gaerdydd am bod fi wedi bod unwaith o'r blaen a cael uffar o hwyl. Bys o hogia gwaith yn dwad lawr i weld Wêls yn chwarae rygbi. Dodd gin i ddim ticad a chesh i 'run yn diwadd, ond odd 'na ddigon o lysh drwy dydd a noson grêt yn *New Ely*, pyb mawr ddim yn bell o ganol dre. Dwi ddim yn licio rygbi, ddim llawer eniwe, ond rodd o'n jans am hwyl i'r hogia. O'n i'n dallt bod 'na lot o hogia ffor' cw lawr yma'n gweithio ac yn gwbod felly na faswn i ddim yn styc am fêts.

Ar tren doish i lawr a drud ar diawl oedd o hefyd, ond dodd dim ots gin i am mai nhw oedd yn talu. Gesh i job uffernol yn Crewe — steshion fawr — isho newid a ffeindio rhyw blatfform 4B. O'n i'n meddwl na faswn i ddim yn gneud hi mewn pryd. Mae 'na far ar lot o drens ond dodd 'na ddim byd ar y slow-coach yma ar ôl i mi redag a magu sychad.

Dwi'n difaru lot na faswn i wedi dysgu trêd pan adawish i'r ysgol, mynd i'r tech yn Bangor a ballu am ddiwrnod bob wsnos fel lot o'r hogia ond 'na fo. Gesh i job heb lawar o drafferth yn Howells, yn y lle carpedi. Siwt a thei a ballu, ia, rhaid i chi edrych yn smart. Dipyn bach yn boring ond dwi'n dal arni'n o lew de. Ond fanno gesh i'n siomi gynta yn Gaerdydd hefyd.

Ddoth 'na ddyn a'i wraig i mewn yn ystod yr wythnosa cynta ro'n i'n gweithio 'no, yn siarad Cymraeg Sowth. Dwi'n dechra dallt nhw'n o lew rwan ac mi nesh i ofyn i'r boi yn Gymraeg fedrwn i helpu fo. Iesu, dodd o ddim yn licio yntôl ac rodd o'n fwy cartrefol o'r hannar pan ddoth y bos heibio iddo fo gal siarad Susnag. Dodd o ddim yn swnio'n bad o foi, ddim hannar mor bwysig ag odd o'n swnio'n iaith y Sais. Dwi'n meddwl ella bod fi wedi weld o ar telifishyn.

Methu dallt. Fydda'i'n falch bob amser clywad rhywun yn siarad Cymraeg. Dwi ddim yn Blaid Cymru ofnadwy, ond mae pawb jest yn dipyn o Blaid Cymru bellach yn Sir Gaernarfon, ac mae clywad Cymraeg yn fan hyn yn gneud i rywun deimlo'n well gyda'r nos. Dyna pam esh i chwilio am y *New Ely* lle buesh i o'r blaen. Dwi'n byw yn Roath ac erbyn gweld, doedd y lle ddim yn bell i ffwrdd.

Ond arglwydd, dyna chi wahaniaeth yn y lle ers pan welish i o ddwutha. Llawn dop tro hwnnw, môr o ganu, lloria'n socian a mŵg sigarets yn nadu chi weld pen draw'r stafall. Rodd hi jest yn wag tro 'ma, hefo tua hannar dwshin o hogia ac un hogan yn chwarae cardia am bres ddim yn bell o'r bar, dau ddyn du mewn congol dywyll a thair modan isho'u pigo i fyny yn yfad haneri draw wrth y ffenast. Godish i beint o meild a phwyso ar y bar, meddwl baswn i'n nabod rhywun fasa'n dwad i mewn.

Ddoth neb. Ar ol yfad tri, do'n i'n dal i nabod neb o'r bobol ddoth i mewn er eu bod nhw i gyd jest yn siarad Cymraeg, ac ro'n i'n teimlo reit ffed-yp.

"Os 'na jans am gem, hogia?" medda fi wrth yr hogia cardia. Dwi ddim yn dda iawn am chwarae brag, ond rwbath i joinio criw de. Mi gollish ryw dipyn wrth chwarae nes ar ddiwadd y noson, iesu gwyn! gesh i beil o sicsus. Mi arhosodd un boi efo fi ond mi roish i'r cwbl oedd gin i yn y pŵl, ddim isho mynd â'i bres o i gyd noson gynta de. "Tri chwech", medda fi, achos yn Gymraeg oeddan ni'n chwarae, ac ro'n i'n gwbod mod i wedi ennill. "Sori, mêt. Tair brenhines," medda fynta gan fachu'r pres.

Son am deimlo'n giami. Roeddan nhw yno noson wedyn hefyd, ond roedd colli wythpunt noson cynt yn ddigon i fi. Eniwe, naethon nhw ddim gofyn. Methu ffitio i mewn yn fanna. Mae 'na griw arall o deips F.W.A. sy'n canu petha fel *Tramp, tramp, tramp the boys are marching* bob weekend jest. Hogia calad, siarad lot o Susnag a'u rhegi a'u chwerthin nhw'n bowndian o wal i wal. Hen hogia iawn and anodd nabod nhw. Hollol wahanol i hogia ni, ond ddim gyn waethad â stiwdants. Mae rheini'n dwad i'r Ely yn un criwia mawr ac yn eistedd mewn cylch a chadw pawb arall allan. Rêl clics.

Faswn i ddim yn meindio chwarae ffwtbol hefo'r tim Cymric 'na sydd hefo postar ar y bôrd wrth y drws. Mi fyddan yn dwad mewn bob nos Ferchar ar ôl treinio. Berig bod hwnnw'n dipyn o glic hefyd. Tichyrs a hogia clyfar. Cymraeg hyn a Cymraeg llall fydda'i'n glywad gynyn nhw, ddim ffwtbol. Lle ma hogia ffor' cw na fasan nhw'n dwad i byb Cymraeg dwi isio wbod?

Dyna pam ro'n i mor falch o weld John Pen Rwd noson o'r blaen. Tichyr ydy John, a fydd o bob amsar yn dwad draw i weld yr hogia yn y Black pan fydd o'n dre ar ei holides o Gaerdydd. "John Pen Rwd y diawl, sumae?" medda fi'n uchel ar draws y stafall pan ddoth o mewn i'r Ely hefo rhyw fodan handi ar ei fraich, ond nath o ddim hannar cymaint o ffys ohona'i a fydd o'n neud pan fydd o'n cicio'i sodla ar ben ei hun yn ystod ei holides haf. Gweld dim bai arno fo chwaith, deud gwir, hefo peth handi felna i sbio arni. Ond hi ddoth ata'i ddiwadd y noson a gofyn i fi stopio galw John yn 'Ben Rwd' achos bod neb arall yn galw fo'n hynny rwan, yn Gaerdydd. Dipyn o falu cach tasa chi'n gofyn i fi. John Pen Rwd fydd o i fi am byth.

Yr hogan sy'n gneud *Y Dinesydd* 'ma ddoth ata'i noson o'r blaen yn gofyn os o'n i isio copi. "Dim diolch," medda fi'n meddwl bod o'n costio. "Am ddim," medda hitha. Mi ddarllenish i o drwadd, dim byd gwell i neud uwchben 'y mheint, a methu coelio mod i'n byw yn yr un Caerdydd a'r bobl odd yn sgwennu. Ar ôl cael dipyn o êl mi ddeudish i wrthi hi hefyd. "Does 'na ddim gair am New Ely a llefydd dwi'n mynd iddynt nhw yn fan hyn," medda fi, a fanna cesh i'n nal, de. "Iawn, sgwenna di amdanyn nhw ta," medda hi. "Sut ti'n disgwyl i fi sgwennu i bapur newydd?" medda fi. "Gesh i 'mond tri C.S.E. a mae 'na ddigon o hogia clyfrach na fi yn fan hyn heno i neud." Ond mae'n debyg fod yr hogia clyfar yn gwrthod gneud, neu'n gaddo gneud a gneud dim yn diwadd. Duw, rodd hi'n cwyno ac o'n i wedi cael dipyn go lew o êl ac yn hawdd i berswadio. Roedd hi'n gleniach na fuo neb arall hefo fi ers pan ddos i lawr a nath hi addo'n helpu fi hefo sbelio a teitls a ballu.

"Be ddeuda i?" medda fi. "Jest sonia am lle bynnag ti'n mynd a beth bynnag ti'n neud yn Gaerdydd," medda hi.

"Fath â cadw diary ia?"

"Dyna chdi."

Uffernol o boring faswn i'n feddwl, ond ei lwc owt hi ydy hynny.

GORONWY JONES


*UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU*

**Sefydliad rhydd ac annibynnol ddeugain mlynedd ar y blaen i Ddatganoli**

UCAC

Onid yw'ch ymresymu cenedlaethol yn gwbl glir sythwch y dryswch yn awr trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen isod.

| | |
|---|---|
| Tanysgrifiad Aelodaeth am 1976 | £10.00 |
| Athrawon ar eu blwyddyn gyntaf o wasanaeth | £5.00 |

At: Yr Ysgrifennydd Gweinyddol, UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd, CF2 3AJ, (Tel: 24692).

Amgaeaf siec/archeb post, gwerth £......, tanysgrifiad am 1976.

Enw ..........................................

Cyfeiriad preifat..........................................


..........................................

Cyfeiriad Ysgol/Coleg..........................................

Cyflogwr: ..........................................



*Edmygwyr ifanc yn Arddangosfa Celf a Chrefft Eisteddfod Sir yr Urdd. Yn y darlun gwelir cynnyrch y gystadleuaeth arlunio 7-9 oed.*




# Cymrodorion y Barri

Yng nghyfarfod mis Chwefror fe geisiwyd pontio'r flwyddyn 1906 a'r flwyddyn 1976. 'Roedd y cadeirydd mewn gwisg Edwardaidd, dangoswyd gwisg briodas a oedd yn nodweddiadol o ddechrau'r ganrif, gwelwyd lluniau o'r Barri yn dangos sut le ydoedd ar droad y ganrif, darllenwyd o hen gofnodion y Gymdeithas.

'Roedd yn addas ein bod ni'n edrych ar orffennol y gymdeithas oblegid 'nôl ym 1906 y sefydlwyd y Cymrodorion. Miss Muriel Bowen-Evans a'n harweiniodd ar yr arolwg hanesyddol. Dangosodd hi fod tua 3,000 o bobl ymhlith 24,000 o drigolion y Barri yn siarad Cymraeg ym 1901. Felly 'roedd y Cymry'n lleiafrif ar droad y ganrif, ac yn ymwybodol o hynny. 'Roeddent yn ymwybodol iawn fod y Gymraeg yn y dre ar drai a bod angen dysgu'r iaith.

Ar Wyl Ddewi "gyda hwyl a brwdfrydedd" fe sefydlwyd Cymdeithas y Cymrodorion a mabwysiadodd yr arwyddair "Fy iaith, fy nghenedl, fy ngwlad".


Esboniodd y darlithydd sut y llwyddodd y swyddogion cyntaf i ddenu darlithwyr o fri i'r gymdeithas — yn brif-athrawon ac athrawon prif-ysgol, ac 'roedd yn syndod i bawb glywed fod cynifer o wŷr amlwg y genedl wedi anrhydeddu'r gymdeithas â'u presenoldeb ynddi.

Heblaw'r darlithiau hyn fe gynhaliwyd, ymysg pethau eraill — cystadlaethau darllen, gyrfâu chwist, ymgomwestau, cymanfaoedd canu. Mwynhawyd, yn ogystal, ymweld â lleoedd hanesyddol yn y fro, a'r teithiau'n cyfuno difyrrwch a diwylliant.

Mae pobl y Barri'n dal i sôn am gwmni drama'r Gymdeithas ac olrheiniwyd hynt a helynt y cwmni gan Mrs Bryn Evans. Dangosodd Mrs Evans i'r Gymdeithas lwyfannu dramâu'n ddi-dor rhwng 1913 a 1951 ond i'r ddrama olaf gael ei pherfformio yn 1959.

Wrth ddiolch i Miss Bowen-Evans pwysleisodd y Cadeirydd, Mr John Williams, y llafur caled a'r ymchwil dyfal a oedd yn sail i'r ddarlith. Cytunai pawb ag ef fod dull anffurfiol y traethu wedi bod yn fodd i ddwyn y gynulleidfa a'r a darlithydd a ei gilydd ac wedi cyfrannu tuag at bontio'r saith deg mlynedd.

Nid oedd y ddarlith serch hynny yn ddigon, er gwyched oedd. Bodolai yn y dre lawer iawn o ddefnydd llafar. 'Roedd yn rhaid diogelu'r ffynhonnell bwysig hon cyn ei bod yn rhy hwyr, gan fod hanes y Gymdeithas, ar un olwg, yn adlewyrchu hanes y Gymraeg yn y dre. Hefyd, byddai'n ddoeth i gofnodi hanes 1906-1976 yn ffurf llyfryn. 'Roedd cyfraniad gwerthfawr a llafur caled Miss Bowen-Evans yn haeddu gwell tynged na dwy awr o ddarlith.





**Canolfan yr Urdd**
**Caerdydd**
**Yn eisiau**
**Is-Warden**

I gyd-arwain yr Aelwyd (14-20 oed) nos Wener, 7-10 o'r gloch. Cyflog £6.77 y noson.

Ymholiadau pellach/ ceisiadau (erbyn Ebrill 20 at:
Cadeirydd Pwyllgor Rheoli,
Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy, Caerdydd.


# Dawns Gŵyl Dewi

Ar nos Lun, y cyntaf o Fawrth, cynhaliwyd dawns Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Ddinas, y gyntaf o nifer, gobeithio. Roedd yr elw'n mynd i Gronfa'r Mil o Filoedd, cronfa eisteddfod yr Urdd, Tŵr eglwys Sant Ieuan, a chronfa feddygol ysbyty'r Waun.

Cafwyd noson hwyliog a diddan a fu'n fwynhad i bawb — ac fe ddysgwyd ambell wers, hefyd. Yr amlycaf, efallai yw'r un a awgryma fod angen ystyried trefniadau dawns o'r fath fisoedd ymlaen llaw. Llesteiriwyd y pwyllgor gweithgar a fu'n trefnu'r tro hwn gan y gelyn amser, a hwnnw wedi trefnu fod cynifer o bethau eraill wedi'u trefnu gan nifer o sefydliadau eraill. Mae Dewi Ddyfrwr (a bwytawr bara'n unig, yn ôl traddodiad) wedi mynd i feddwl llawer am ei stumog y dyddiau diwethaf yma, ond fe fyddai'n wych pe gellid trefnu noson yn y brifddinas a fyddai mor gadarn ei hapêl â noson yn neuadd y Tywysog Albert yn Llundain. Gyda'r sôn am Eisteddfod fawr 1978 yn y gwynt, dyma'n cyfle.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*